

Statws RAG

- Coch: Dan y targed
- Oren: Bron â chyrraedd y targed
- Gwyrdd: Ar y trywydd iawn y i gyrraedd y targed



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth ■

Prif allbynnau yn ystod y chwarter:

5 Erthygl Dechnegol

Erthyglau technegol a gyhoeddwyd:

- DETHOL HEFFROD LLAETHYN GENOMIG
- FFERMIO FERTIGOL: DYFODOL NEWYDD AR GYFER CYNHYRCHU BWYD
- RHEOLI TAIL DOFEDNOD
- RHEOLI PRIDD YN WELL: LLEIHAIU NEU ATAL TRINIAETH TIR
- ATAL PIGO NIWEIDIOL MEWN IEIR DODWY: DARPARU AMGYLCHEDD AR SAIL LLES

Factsheets produced:


- GOFYNION STORIO SILWAIR A SLYRI 16/10/2017
- DEFNYDDIO GLASWELLYN DDOETH 24/10/2017

Allbynnau'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth ers mis Hydref 2015

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn ceisio pontio rhwng gwaith ymchwil a gwaith ymarferol trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys:

- Adolygiadau llenyddiaeth i gefnogi cynigion EIP
- Cymorth ar gyfer datblygu prosiectau ar gyfer Swyddogion Technegol CFF a Grwpiau EIP
- Cyfrannu at gyhoeddiad technegol Cyswllt Ffermio

Mae'r graff isod yn dangos yr allbynnau hyd yn hyn:




Syniadau newydd ar gyfer y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

- Bydd y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn creu clipiau fideo byr i gyd-fynd â'r erthyglau technegol – bydd y rhain ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

Lleihau Lefelau Straen mewn Gwartheg – Dylunio System Effeithiol i Drin Gwartheg

Lleihau lefelau straen mewn gwartheg; Dylunio system effeithiol i drin gwartheg.

STRAEN



- ☹ Lefelau imiwedd is
- ☹ Lleihad mewn cynhyrchiant
- ☹ Lai o gynnyrch llaeth
- ☹ Cyfradd atgenhedlu is
- ☹ Anafu gwartheg/ffermwyr

Mae gwaith ymchwil newydd sy'n gwerthuso mân newidiadau i leihau straen yn cynnwys:

- ✓ Lleihau sŵn
- ✓ Gwaredu gwrthrychau llachar a llawer o liw
- ✓ Lleihau pyllau dŵr
- ✓ Lleihau cysgodion a thywyllwch

Ystyriaethau ar gyfer system trin gwartheg wedi'i dylunio'n effeithiol

- ✓ **Y system** – Mae ymateb anifeiliaid i'w hamgylchedd yn cael effaith sylweddol ar eu perfformiad cyffredinol. Mae ystyried gweithredu mân newidiadau i sicrhau profiad cadarnhaol yn hanfodol er mwyn trin da byw'n effeithiol.
- ✓ **Ffermwyr** – Mae dylanwad ffermwyr ar ymddygiad gwartheg yn cael effaith sylweddol amynt, felly mae'n bwysig bod y ffermwyr yn hyderus ac yn davel er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal amgylchedd tawel.
- ✓ **Datblygu Cyfleusterau** – Dylai dyluniad cyfleusterau roi ystyriaeth i gyfeiriad y llif, cynnwys llawr sy'n atal llithro, a'r dyluniad ei hun er mwyn sicrhau bod anifeiliaid yn symud yn rhwydd; er enghraifft, defnyddio systemau rhes ar gromlin a chynnwys ochrau cadarn.

Wedi'i addasu o Lima, M.L.P, Negrão J.A, de Paz, C.C.P, Grandin, T. 2017. Minor corral changes and adoption of good handling practices can improve the behavior and reduce cortisol release in Nellore cows.

Miriam Parker – Cyfarwyddwr Livestockwise Ltd.

Partneriaeth Arloesi Ewrop ■



| | |
|---------------------------------|----|
| Targed Prosiect EIP Cymru 2022 | 45 |
| Prosiectau yn y broses Ymgeisio | 12 |
| Prosiectau a Gymeradwywyd | 8 |

Rheoli clwyf tatws gan ddefnyddio cydran o blanhigyn brodorol difwyd



Bydd y prosiect Clwyf Tatws yn anelu at ddefnyddio ymchwil diweddar i helpu datblygu mesur i atal clefyd tatws gan ddefnyddio saponin yn deillio o eiddew cyffredin. Bydd y prosiect yn para am 18 mis, gan ymestyn dros ddau dymor pori ar ddwy fferm. Mae clwyf tatws hwyr yn haint ar ddail a chloron tatw sy'n gallu achosi methiant y cnwd. Dyma'r haint tatws gwaethaf ledled y byd ac mae yna amcan o £70 miliwn ledled DU yn cael ei wario ar reoli'r haint yn ystod blwyddyn wael o ran clwyf tatw. Mae angen dewis arall ar dyfwyr organig i gymryd lle ffwngladdwyr yn seiliedig ar gopr.

Asesu potensial cynnal profion genomig ar heffrod blaeth i gynyddu enillion geneteg ac elw ariannol

Fel rhan o EIP Wales, mae wyth ffermwr o ogledd Cymru yn anelu at sicrhau'r elw gorau posibl ar eu ffermydd trwy gyflymu'r cynnydd bridio ar gyfer eu buchesi blaeth.

Mae dibynadwyedd nodweddiad sy'n cael eu hetifeddu o'r mynegai pedigree traddodiadol yn 35%. Trwy ddefnyddio profion genomig i fesur DNA ar gyfer nodweddiad cynhyrchu, math, ffrwythlondeb ac iechyd, gellir cynyddu'r dibynadwyedd i **70%**.



"Bydd dod â'r arloesedd modern hwn i lefel y fferm yn werthfawr iawn i'r diwydiant trwy gyflymu cynnydd y fuches, hybu'r elfen gystadleuol a chynaliadwyedd y fferm".

Bydd y prosiect yn ariannu profion genomig ar 410 o heffrod Holstein-Friesian yn bennaf i asesu eu potensial genetig. Mae'r wyth fferm wedi rhestru'r nodweddiad y maent yn bwriadu eu gwella o fewn eu buchesi a bydd cynnydd yn cael ei asesu dros gyfnod o 3 blaethiad.

Nodau'r prosiect yw:

- Cynhyrchu trefn benderfynu ar gyfer defnyddio genomeg
- Pennu'r cysylltiad rhwng gallu trosglwyddo genomig disgwylidig (PTA) a pherfformiad gwirioneddol
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o broffil genetig y fuches, tueddiadau ac effaith penderfyniadau bridio ar gyfer pob fferm sy'n cymryd rhan
- Cynhyrchu dadansoddiad cost mantais o broffion genomig ar gyfer pob sefyllfa fferm.

"Trwy wneud buddsoddiad bychan mewn profion genomig, gellir ailstrwythuro cynlluniau bridio i gael y gorau o'r adnodd mwyaf gwerthfawr ar y fferm, sef y fuches."

Y dasg gyntaf ar gyfer y ffermwyr fydd dethol y stoc ifanc i'w cynnwys yn y profion. O fewn yr wythnosau nesaf, bydd samplau DNA yn cael eu cymryd gan yr heffrod cyn eu hanfon i ganfod eu proffil genetig mewn pryd ar gyfer y bridio cyntaf yn 12-13 mis oed.

Teithiau Astudio



Ym mis Medi, bu grŵp AHDB Udder Group yn ymweld â ffermydd blaengar yng Nghaerloyw a Dorset. Roedd y prif bynciau'n cynnwys systemau ffermio blaeth, rheolaeth staff a chyfathrebu.

Bu Grŵp Ffermwyr Dyfodol Cymru'n ymweld â thair fferm flaengar yng Ngogledd Cymru ym mis Medi. Rhoddodd yr ymweliad hyder i'r grŵp fuddsoddi yn eu busnesau ac yn ansawdd da byw yn ogystal â thir.

Teithiodd Grŵp Merched mewn Amaeth Llambed i Lundain i fynychu digwyddiad Meat Women in Business ym mis Hydref.

Bu Fforwm Amaethyddol CFFI Sir Gâr yn ymweld â nifer o ffermydd a busnesau yng Nghaint a Sussex gan ganolbwyntio ar arallgyfeirio a sut i fod yn hunangynhaliol.

Bu Grŵp Trafod Merlin yn ymweld â ffermydd yng Ngogledd Cymru i edrych ar eu systemau ffermio. Bu'r digwyddiad yn canolbwyntio ar y problemau unigryw sy'n wynebu ffermwyr blaeth yng Nghymru a'r strategaethau a roddwyd mewn lle i'w goresgyn.

Bu CFFI Cymru yn ymweld â nifer o ffermydd llwyddiannus yn yr Alban i weld sut mae ffermydd biff a defaid tu allan i Gymru wedi addasu i newid trwy ddatblygu ac arallgyfeirio eu busnesau.

Ym mis Tachwedd, bu Grŵp Trafod Blaenbwch yn ymweld tair fferm yn yr Alban i weld sut y mae ffermydd biff a defaid traddodiadol tu allan i Gymru wedi addasu i newid trwy ddatblygu ac arallgyfeirio eu busnesau.

